Cytundeb Derbyn

1 Rhif Derbyn:

2 Derbyniwyd gan:

Enw:
(y rhoddwr / adneuwr)

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

E-bost:

3 Y Deunydd, fel y'i disgrifir isod:

4 Pwy wnaeth greu y Deunydd?

_____

5 Pwy yw perchennog yr hawlfraint? (gweler 'Telerau ac Amodau' 3.1)

(ticiwch)

y rhoddwr / adneuwr ☐

arall ☐ (rhowch fanylion os gallwch)

cyfuniad o'r uchod ☐ (rhowch fanylion os gallwch)

_____

_____

Enghraifft

6 Beth yw perthynas y rhoddwr / adneuwr â'r Deunydd os nad ei wneuthurwr neu berchennog ei hawlfraint?
(Disgrifiwch: e.e. cyfaill/perthynas i'r gwneuthurwr, aelod o staff y sefydliad a wnaeth neu a fu'n cadw'r Deunydd, canfyddwr y Deunydd, ac ati.)

_____

_____

7 Cyflwynir Y Deunydd i Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru [AGSSC] fel *(ticiwch UN blwch isod, os gwelwch yn dda*):

RHODD
rhodd cyfangwbl o'r Deunydd ac unrhyw hawlfraint
'n eiddo i'r rhoddwr ☐
(gweler 'Telerau ac Amodau' 3.2)
ewch i 7.1

ADNAU
benthyciad tymor hir ☐
(gweler 'Telerau ac Amodau' 3.3)
ewch i 7.2

Os cyflwynir y Deunydd fel rhodd:

7.1 Gofyna AGSSC yn garedig i roddwyr arwyddo'r datganiad canlynol:

Yr wyf drwy hyn yn aseinio i AGSSC, gyda gwarant teitl llawn, bob hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill sy'n eiddo i mi yn y Deunydd.

Enw (llythrennau bras): _____

Arwyddwyd: _____ Dyddiad: _____

Ewch i 9, os gwelwch yn dda (ble mae angen llofnod arall)

Os cyflwynir y deunydd fel adnau:

7.2 Defnydd o'r Deunydd gan AGSSC (gweler 'Telerau ac Amodau' 6.1)

Gall AGSSC ddefnyddio copiau o'r Deunydd yn anfasnachol i ddibenion hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o etifeddiaeth delweddau symudol Cymru ac o amcanion a gweithgareddau AGSSC. Mae hyn yn cynnwys caniatau mynediad i gopiau o'r Deunydd i ymchwilwyr bona fide yn adeiladau AGSSC.

7.2.1 Defnydd o'r Deunydd gan drydydd parti (gweler 'Telerau ac Amodau' 6.2)

Os ydych wedi cadarnhau mai chi yw perchennog hawlfraint rhan neu'r cwbl o'r Deunydd, ticiwch **un** gosodiad o **'A'** ac **un** gosodiad o **'B'**:

Engraifft

A – Defnydd anfasnachol

Gosodiad A1
Yr wyf yn rhoi caniatâd i AGSSC ganiatau i unrhyw drydydd parti ddefnyddio (oddi allan i adeilad AGSSC) y Deunydd i ddibenion anfasnachol bona-fide megis astudio preifat, ymchwil anfasnachol, defnydd addysgol anfasnachol ac arddangos anfasnachol.

(ticiwch) ☐

Gosodiad A2
Mae'n rhaid i unrhyw drydydd parti sydd yn dymuno defnyddio'r Deunydd (oddi allan i adeilad AGSSC) i ddibenion anfasnachol bona-fide (megis astudio preifat, ymchwil anfasnachol, defnydd addysgol anfasnachol ac arddangos anfasnachol), geisio fy nghaniatâd i wneud hynny.

(ticiwch) ☐

B – Defnydd masnachol

Gosodiad B1
Yr wyf yn rhoi caniatâd i AGSSC drwyddedu unrhyw drydydd parti bona-fide i ddefnyddio copiau o'r Deunydd i ddibenion masnachol, ac yn caniatau i unrhyw incwm all ddeillio o hynny gael ei neilltuo i gefnogi gweithgareddau AGSSC.
Mae hyn yn cynnwys ymgorfforiad y Deunydd mewn unrhyw ffilm, rhaglen, cynhyrchiad (e.e. ar fideo neu DVD) neu unrhyw becyn arall ar gyfer

arddangos theatrig
darlledu
gosod ar wefan / arlein ar y Rhyngrwyd
dosbarthiad / arddangos mewn unrhyw gyfrwng arall drwy'r byd.

(ticiwch) ☐

Gosodiad B2
Mae'n rhaid i unrhyw drydydd parti sydd yn dymuno trwyddedu copiau o'r Deunydd i ddibenion masnachol bona-fide geisio fyn nghaniatâd i wneud hynnny. Mae hyn yn cynnwys ymgorfforiad y Deunydd mewn unrhyw ffilm, rhaglen, cynhyrchiad (e.e. ar fideo neu DVD) neu unrhyw becyn arall ar gyfer:

arddangos theatrig
darlledu
gosod ar wefan / arlein ar y Rhyngrwyd
dosbarthiad / arddangos mewn unrhyw gyfrwng arall drwy'r byd.

(ticiwch) ☐

8 Amodau Arbennig
Nodwch unrhyw ddymuniadau penodol (na ddelir â hwy yn 7.2.1 uchod) yn ymwneud â'r defnydd o'r Deunydd:

.

Enghraifft

9 Perthynas Agosaf / Cyswllt yn lle neu ar ran y Rhoddwr / Adneuwr

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn: E-bost:

Cytunir drwy hyn bod y personau isod yn derbyn amodau a thelerau'r Cytundeb hwn:

Ar ran y Rhoddwr/Adneuwr	**Ar ran AGSSC**
Arwyddwyd: _____	Arwyddwyd: _____
Dyddiad: _____	Dyddiad: _____

Os bydd eich cyfeiriad yn newid, rhowch wybod i'r Archif, os gwelwch yn dda

Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, SY23 3BU

Ffôn: 01970 632828 E-bost: agssc@llgc.org.uk
www.archif.com

Engraifft

TELERAU AC AMODAU
ar gyfer rhoddi ac adneuo deunydd delweddau symudol

Enghraifft

1 Yr Archif

Mae Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gorff elusennol, di-wneud-elw. Ymysg prif amcanion yr Archif y mae diogelu a dathlu etifeddiaeth unigryw Cymru o ddelweddau symudol, ac fe wna hyn drwy achub, adfer, dogfennu a hyrwyddo'r rhan bwysig hon o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae AGSSC yn:

casglu delweddau symudol sydd yn adlewyrchu pob agwedd o fywyd, cymdeithas, diwydiant a chelfyddyd Cymru, o 1895 hyd heddiw

diogelu'r delweddau hyn er budd cenedlaethau'r dyfodol

catalogio'r delweddau er mwyn gwneud y casgliad yn hygyrch

hyrwyddo'r casgliad i ystod eang o gynulleidfaoedd, defnyddwyr addysgol ac eraill, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd i'w astudio a'i fwynhau.

Mae AGSSC yn aelod o Fforwm Archif Ffilm y DU, sef cymdeithas yr archifau ffilm yn y sector gyhoeddus, a FIAF, cymdeithas ryngwladol yr archifau ffilm. Mae'n arddel egwyddorion rhyngwladol cydnabyddedig ar gyfer diogelu'r delweddau symudol dan ei gofal, a defnydd cyfrifol a moesol ohonynt.

2 Y casgliad

Mae casgliad AGSSC o ddelweddau symudol bellach yn cynnwys miloedd o ffilmiau a thapiau fideo. Mae'n cwmpasu ystod eang o fathau a fformatau. Er enghraifft, mae'r deunydd dogfen yn cynnwys riliau newyddion, cynyrchiadau dogfen (ffilm a theledu), ffilmiau addysgol, ffilmiau cartref a chynyrchiadau amatur eraill. Mae rhai pynciau'n cael eu hadlewyrchu'n dda iawn yn y casgliad - er engrhaifft amaethyddiaeth, bywyd cymdeithasol, gweithgaredd diwylliannol (e.e. eisteddfodau), bywyd teuluol, a thwristiaeth a hamdden.

3 Casglu deunydd

Nid oes gan AGSSC gronfa bwrcas, felly mae'n ddibynnol ar *roddion* neu *adneuon* (benthyciadau tymor hir) o ddeunydd ffilm a fideo er mwyn datblygu'r casgliad. Mae

rhoddwyr ac adneuwyr yn cynnwys gwneuthurwyr ffilm a chwmniau cynhyrchu, darlledwyr, aelodau o'r cyhoedd, grwpiau, sefydliadau a busnesau.

3.1 Hawlfraint

Mae AGSSC yn cydnabod ac yn parchu pob hawlfraint sy'n bodoli yn y deunydd a drosglwyddir i'w gofal, p'un ai yw'n eiddo i'r rhoddwr/adneuwr ai peidio. Pan fo'r sefyllfa hawlfraint yn aneglur bydd staff yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i'r mater i sicrhau eglurdeb. Fel rheol, bydd yr hawlfraint mewn ffilmiau nodwedd a chynyrchiadau proffesiynol eraill yn eiddo i'r cwmni cynhyrchu neu i ddosbarthwr neu ddarlledwr neu eu holynwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr hawlfraint mewn deunydd megis ffilm amatur a ffilmiau cartref yn eiddo i'r gwneuthurwr neu aelod/au o'i deulu/theulu. Yn gyffredinol yn y DU, daw hawlfraint delweddau symudol i ben 70 mlynedd wedi marwolaeth eu gwneuthurwr.

3.2 Rhodd

Pan fo person yn rhoi deunydd yn rhodd i AGSSC, daw'r deunydd yn eiddo yn gyfangwbl i AGSSC, ynghyd ag unrhyw hawlfraint all fod gan y rhoddwr yn y deunydd. Mae'r rhoddwr yn aseinio i AGSSC, gyda gwarant teitl llawn, bob hawlfraint a hawliau eiddo deallusol all fod ganddo yn y deunydd. Mae AGSSC yn croesawu rhoddion gan eu bod yn hwyluso'r dasg o wneud y deunydd yn hygyrch i ddefnyddwyr megis ymchwilwyr a chynulleidfaoedd, gan gynnwys grwpiau cymundeol a gwylwyr teledu.

Gyda rhodd, mae AGSSC yn derbyn yr hawl i storio'r deunydd y barhaol ac i'w gopio fel bo'r angen ar gyfer cadwraeth, adfer a mynediad (di-elw a masnachol (gw. **6**, **Mynediad**), gan gynnwys defnydd arlein).

Mae AGSSC yn derbyn rhoddion o ddeunydd gan unigolion a chyrff nad ydynt yn berchen ar yr hawlfraint. Ym mhob achos o'r fath caiff statws yr hawlfraint ei gydnabod a'i barchu, a cheisir yr hawl briodol ar gyfer unrhyw ddefnydd gan dryddydd parti ac unrhyw ddefnydd masnachol.

3.3 Adnau

Pan fo person yn adneuo deunydd gyda AGSSC, daw'r deunydd corfforol i ofal yr Archif ar fenthyciad tymor hir tra'n parhau i fod yn eiddo i'r adneuydd, ynghyd ag unrhyw hawlfraint a all fod ganddo yn y deunydd. Gydag adnau, mae AGSSC yn derbyn yr hawl i storio'r deunydd ac i wneud unrhyw waith trwsio (gw. **4**, **Gofal casgliad**) a chopio fel bo'r angen ar gyfer cadwraeth, ac i ddefnyddio'r deunydd yn anfasnachol at ddiben hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r etifeddiaeth delweddau symudol ac o nod ac amcan AGSSC.

Gall adneuwyr sydd yn berchen ar yr hawlfraint yn eu deunydd ddewis i ba raddau y caiff AGSSC ganiatau mynediad trydydd parti a masnachol i'r deunydd (gw. **7.2.1** y ffurflen Cytundeb Derbyn).

Mae adneuwyr yn cadw'r hawl, mewn amgylchiadau eithriadol, i dynnu eu deunydd yn ôl (dros dro neu yn barhaol) o ofal AGSSC (gw. **8**, **Tynnu deunydd yn ôl**).

Enghraifft

4 Gofal o'r casgliad

Pan ddaw deunydd yn rhan o gasgliad AGSSC fe gaiff ei archwilio ac yna ei lanhau a'i drwsio fel bo'r angen. (Ystyr 'trwsio' yma yw cynnal gwaith sylfaenol megis trwsio sbleisiau a thyllau sbroced.) Caiff y deunydd ei storio mewn storfa bwrpasol ble rheolir yr amgylchedd, ac mae'n bosib y caiff ei gopio (i ffilm, tâp fideo neu gyfrwng priodol arall) er mwyn diogelu'r deunydd gwreiddiol a galluogi mynediad priodol. Ar gyfer copio i ffilm, defnyddir labordai arbenigol. Bydd unrhyw gopiau a wneir o'r deunydd gan yr Archif yn eiddo i AGSSC, ond o safbwynt eu defnyddio byddant yn rhwym i amodau a thelerau'r Cytundeb Derbyn.

Ystyrir eitemau a roddir neu a adneuir yn eitemau 'gwreiddiol' ac ni fyddant ar gael i ddefnyddwyr. Ni fydd staff AGSSC, ar ôl glanhau a thrwsio'r eitemau hyn, yn eu golygu na'u haddasu mewn unrhyw fodd.

Bydd unrhyw gopiau o'r deunydd a wneir gan AGSSC yn sgîl ymgymryd â'r tasgau uchod yn eiddo i AGSSC, ond ym mhob ffordd arall byddant yn rhwym i amodau a thelerau'r Cytundeb Derbyn.

5 Catalogio

Bydd AGSSC yn catalogio'r deunydd, gan roddi gwybodaeth am ei darddiad, ei nodweddion corfforol/technegol a'i gynnwys, mewn bas data. Maes o law bydd gwybodaeth am gynnwys y deunydd ar gael i'r cyhoedd arlein. Yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Gwybodaeth, ni ryddheir unrhyw ddata sensitif i'r cyhoedd onibai bod yr unigolion perthnasol wedi caniatau hynny. Mewn amgylchiadau penodol, gall cyfrinachedd neu amod arall yn deillio o gynnwys y deunydd fod yn berthnasol, a dylid hysbysu AGSSC o hyn gan fod posibilrwydd y gellid eithrio'r deunydd (neu'r rhan berthnasol ohono) dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

6 Mynediad

6.1 Defnydd o'r deunydd gan AGSSC

Gall AGSSC eu hun (dan ei rheolaeth ei ei hun) ddefnyddio copiau o'r deunydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoedus o etifeddiaeth delweddau symudol Cymru ac o amcanion a gweithgareddau'r Archif. Mae hyn yn cynnwys darparu copiau o'r deunydd i ymchwilwyr bona fide yn swyddfeydd AGSSC, arddangos y deunydd (er enghraifft mewn sioeau ffilm cymunedol a sioeau teithiol, ac i grwpiau ysgol a myfyrwyr), a chyhoeddi lluniau llonydd o'r deunydd. Gellir defnyddio delweddau symudol a llonydd o'r deunydd i ddarlunio deunydd gwybodaeth am gasgliad yr Archif (megis catalogau) a deunydd cyhoeddusrwydd. Gellir cyflwyno gwybodaeth o'r fath drwy ddulliau traddodiadol ac electronig (arlein). Bydd gwybodaeth am gynnwys y deunydd yn cael ei gofnodi yng nghatalog yr Archif sydd ar gael i'r cyhoedd arlein (gw. **5**, **Catalogio**).

6.2 Defnydd o'r deunydd gan drydydd parti

Engraifft

Mae'n bosibl y bydd y deunydd hefyd o ddiddordeb i drydydd partion a all ofyn am gael ei ddefnyddio mewn prosiectau masnachol ac anfasnachol. Enghraifft o brosiect masnachol fyddai cynhyrchiad teledu, ble mae cynhyrchydd yn chwilio am ddarn o ffilm archifol i'w gynnwys mewn rhaglen ddogfen. Enghraifft o brosiect anfasnachol fyddai DVD addysgol di-elw, neu ddangosiad di-dâl neu ddi-elw mewn amgueddfa, oriel neu ganolfan gymunedol. Mae'r math hwn o ddefnydd yn ehangu cyrhaeddiad y casgliad yn sylweddol, ac yn tynnu sylw'r cyhoedd at nod ac amcanion yr Archif. Fodd bynnag, bydd AGSSC bob amser yn sicrhau caniatâd perchennog yr hawlfraint cyn trefnu i ryddhau'r deunydd i drydydd parti.

Gall adneuwyr sydd yn berchen ar yr hawlfraint yn eu deunydd ddewis i ba raddau y caiff AGSSC ganiatau mynediad i drydydd parti (gw. **7.2.1** y Cytundeb Derbyn).

Bydd AGSSC yn codi ffî ar ddefnyddwyr masnachol sydd am ddefnyddio'r deunydd, i'w digolledu am gyfran o'r costau cadwraeth a chostau darparu mynediad. Weithiau fe godir ffî ar rai mathau o ddefnyddwyr anfasnachol yn ogystal, ond ar raddfa ostyngol.

Gall perchennog yr hawlfraint yn y deunydd negodi ei ffî breindal ei hun yn uniongyrchol gyda defnyddwyr trydydd parti os ydyw'n dymuno gwneud hynny. Byddai'r trefniant hwnnw yn bodoli yn gyfangwbl ar wahân i'r cytundeb ffurfiol rhwng AGSSC a'r defnyddwyr.

7 Copiau ar gyfer rhoddwyr ac adneuwyr

Gall AGSSC ddarparu copi gwylio o ddeunydd a roddir neu a adneuir os dymunir, yn ddibynnol ar gyflwr corfforol y deunydd gwreiddiol. Ni chodir tâl am y copi. Bydd rhestr aros bob amser am gopiau, ac os yw'r deunydd o faint sylweddol (e.e. o ran nifer yr eitemau ynddo) efallai y bydd angen blaenoriaethu, h.y. dethol rhannau i'w copio yn hytrach na chopio'r deunydd yn ei gyfanrwydd.

8 Tynnu deunydd yn ôl

Os yw adneuwr yn dymuno tynnu ei ddeunydd o'r Archif yn barhaol fe wnaiff yr Archif, mewn amgylchiadau eithriadol, ddychwelyd y deunydd. Mewn ystyriaeth o'r arian cyhoeddus a wariwyd ar storio a diogelu'r deunydd, mae'n bosibl yn bydd gofyn i'r adneuwr dalu ffî i ddigolledu AGSSC. Yn ychwanegol bydd gan yr Archif hawl i wneud (neu i drefnu i wneud) copi/copiau o'r deunydd i'w gadw yn ei chasgliad, a bydd angen rhybudd digonol er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol i alluogi hynny. Bydd yr amodau hawlfraint a amlinellir uchod yn berthnasol i unrhyw gopiau a wneir gan yr Archif o ddeunydd a dynnir yn ôl.

9 Gwaredu

Gallasai'r Archif benderfynu maes o law nad yw yn dymuno cadw peth o'r deunydd a roddir neu a adneuir dan y Cytundeb hwn. Os digwydd hyn bydd yr Archif yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r rhoddwr/adneuwr i drafod opsiynau eraill, a all gynnwys anfon y deunydd dieisiau i gadwrfa mwy addas neu ei ddychwelyd i'r rhoddwr/adneuwr.

Engraifft

Gall AGSSC ddewis gwaredu'r cynwysyddion y cyrrhaedda'r deunydd yr Archif ynddynt (blychau, caniau, tuniau ac ati), neu eu cadw at ddibenion arddangos, fel bo'n briodol. Ym mhob achos fe gofnodir unrhyw wybodaeth berthnasol sydd yn ymddangos ar neu yn y cynwysyddion.

Enghraifft